

# Ffynhonnell gofal

*“Yn hyn y dangoswyd cariad Duw tuag atom: bod Duw wedi anfon ei unig Fab i’r byd er mwyn i ni gael byw drwyddo ef.” (adn. 9)*

## Beth am ddarlflen 1 Ioan 4:7–21 ac yna myfyrio

Os byddwn yn olrhain gofal Cristnogol i’w darddle, yna byddwn yn darganfod ei fod yn cychwyn yng nghalon Duw ei hunan. “Canys felly y carodd Duw y byd fel y rhoddodd ei unig-anedig Fab...” (Ioan 3:16)

Bu i genhadwr o’r India, wrth bregethu i gynulleidfa o Gristnogion a phobl o grefyddau eraill, ddweud unwaith fod gofal i’w weld ar ei amlycaf yn y darlun o Dduw yn rhoi ei Fab ar y groes. “Mae’r Duw a welwn yn Iesu,” meddai, “yn Dduw sydd yn gofalu, yn Dduw sydd yn gofalu cymaint fel ei fod yn rhoi ei Fab ei hun ar y groes.” Wedi iddo orffen, cododd y cadeirydd, meddyg Hindŵaidd, gan ddweud: “Diolch i’n siaradwr heno am ei araith, ond ni ddylem ddod â Duw i mewn i ddigwyddiadau ein byd. Rhaid iddo gael ei ddyrchafu uwchlaw’r pethau hyn. Ni ddylem feddwl am Dduw yn ddyn.” Nawr i’r cadeirydd yma, roedd Duw yn Dduw nad oedd yn gofalu, ddim yn poeni. Nid wyf am swnio yn amharchus, ond yr wyf yn tybied fod duw sydd ddim yn gofalu ddim yn cyfrif. Mae’r duw sydd yn eistedd ar wahân i’w fyd, wedi ei wahanu oddi wrth ei broblemau, yn un nad yw’n haeddu anrhydedd.

Er hynny, gallwn ni lawenhau gan fod ein Duw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, yn Dduw sydd yn gofalu. Trwy ei ddarostyngiad yn dod i mewn i’n byd, yn gwisgo ein cnawd, yn mesur ein gwendid, yn gwybod yn union sut yr ydym ni’n teimlo, mae Duw yn amlygu ei gariad. Mae’n siŵr eich bod yn gyfarwydd â’r emyn:

*Ymhlith holl ryfeddodau’r nef  
hwn y mwyaf Un –  
gweld yr anfeidrol, ddwyfol Fod  
yn gwisgo natur dyn.*

## Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Ioan 10:1–18; Rhuf. 5:6–8; Eff. 2:1–10; Math. 6:25–34

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth sydd yn arddangos yn derfynol fod Duw yn gofalu amdanom?
2. Pa mor bell y mae gofal Duw yn ymestyn?

## Gweddi

O Dduw ein Tad, diolch i ti mai ti yw ffynhonnell pob gofal, pob cydymdeimlad. Tyn fi mor agos at dy galon fel y byddaf innau hefyd yn teimlo ac yn gofalu fel yr wyt ti yn gofalu. Ni all yr un Duw arall siarad â’m cyflwr, oherwydd nid oes yr un Duw arall wedi gwisgo fy natur. Diolch i ti, O Dad. Amen.